# Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol

**11 Mai 2022**

Yn bresennol: Cynghorydd D Clements (Cadeirydd)
Cynghorydd P Baker BEM, Dr R Heath Davies, Mrs S Hoss, Cynghorydd M James a Mr G Jones,

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am -11.55am)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd P Kidney, y Cynghorydd R Owens a'r Cynghorydd M Williams.

**2. Datgan Buddiannau**
Nid oedd unrhyw un wedi datgan buddiant.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2022 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2022.

**4. Twristiaeth Gynaliadwy**
Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Nick Selwyn a Matthew Brushett o Archwilio Cymru oedd, fel rhan o'u rhaglen o archwilio perfformiad yn 2021-22, wedi gwneud gwaith ar Dwristiaeth Gynaliadwy gan ganolbwyntio ar "A yw'r Awdurdod yn gwneud popeth o fewn ei allu i reoli twristiaeth gynaliadwy yn effeithiol yn y Parc Cenedlaethol". Roedd y gwaith hwn wedi'i osod o fewn cyd-destun y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn ystod y ddwy flynedd flaenorol gan ddod â manteision economaidd ac anawsterau i gymunedau'r Parciau Cenedlaethol, ac roedd yn seiliedig ar gyfweliadau gyda swyddogion yr Awdurdod a rhanddeiliaid allanol, a holiadur. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor, a thynnwyd sylw at y pedwar o argymhellion. Daeth y gwaith i'r casgliad bod yr Awdurdod yn arwain ar dwristiaeth gynaliadwy yn y Parc Cenedlaethol, ond bod angen i'r Awdurdod gyfleu ei weledigaeth, blaenoriaethu adnoddau, a chynnwys cymunedau a busnesau yn llawn wrth symud yr agenda hon yn ei blaen. Ychwanegodd Mr Selwyn bod y gwaith hwn wedi ei wneud ar gyfer y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru ac y byddai negeseuon cyffredin o'r tri adroddiad yn cael eu cyhoeddi cyn hir.

Mewn ymateb i'r argymhellion, cytunodd y Prif Weithredwr, er bod sefydlu gwaelodlin bioamrywiaeth yn ddyhead, bod hyn yn anodd yn ymarferol ac

o ran adnoddau. Fodd bynnag byddai adolygiad yn cael ei gynnal o’r defnydd a wneir gan yr Awdurdod o ddata. Gan nodi bod yr adroddiad hefyd yn cyfeirio at yr angen i'r Awdurdod gynnal adolygiad o effeithiolrwydd ei waith hyrwyddo ar hyn o bryd, roedd o'r farn bod y tîm Cyfathrebu wedi gwneud gwaith rhagorol yn hyrwyddo'r negeseuon ‘troedio’n ysgafn’ ac ymddygiad cyfrifol, a phwysleisiwyd y negeseuon hyn yn y cyhoeddiad Coast to Coast. Mynegodd rai pryderon ynghylch yr arolwg o’r busnesau twristiaeth a gynhaliwyd gan fod y diffiniad o dwristiaeth gynaliadwy yn amrywio'n fawr. Ychwanegodd hefyd ei fod o’r farn bod yr Awdurdod wedi gweithio'n dda mewn partneriaeth ar draws y sir a thu hwnt i wella canlyniadau cynaliadwy, ac yn y dyfodol byddai'n ceisio barn yr Aelodau ynghylch a ddylai'r Awdurdod geisio pwerau ychwanegol neu ddatblygu partneriaethau i hybu'r gwaith hwn.

Gan ddiolch i'r Archwilwyr am adroddiad diddorol, nododd un Aelod nad oedd yr adroddiad yn sôn am Egwyddor Sandford, oedd yn datgan bod yn rhaid i'r diben cadwraeth gael blaenoriaeth dros fwynhad o'r Parc pe bai gwrthdaro, a bod angen gwneud hynny er mwyn sicrhau y gallai pobl barhau i fwynhau harddwch naturiol y Parc Cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd yr angen am fwy o ddata gwaelodlin o ran bioamrywiaeth yn gam gweithredu clir. Canmolodd yr Aelodau y papur Coast to Coast, a chytunwyd bod erthyglau’r papur yn cynyddu gwybodaeth ymwelwyr am yr angen i weithredu'n gynaliadwy. Nodwyd hefyd bod yr Awdurdod yn gweithio gyda Croeso Sir Benfro ac y byddai eu dylanwad yn cynyddu gydag amser.

Gofynnwyd i Archwilio Cymru a fyddent yn gwneud unrhyw waith ar drafnidiaeth gyhoeddus, oedd y tu allan i gylch gwaith yr Awdurdod, ac atebwyd bod eu blaen-raglen yn dal i gael ei hystyried. Cytunodd Aelodau eraill bod y gwasanaeth bws arfordirol yn ased enfawr, ac er bod gwell trafnidiaeth o fewn y sir yn hanfodol, roedd llwyddo i newid mewn ymddygiad yn her fwy fyth. Cyfeiriodd Aelod arall at y gwaith sy’n cael ei wneud ar hyn o bryd gan Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru ar ddiwygio’r gwasanaeth bysiau fyddai’n help i awdurdodau lleol fynd i’r afael â’r broblem.

**Nodwyd.**

## 5. Cynllun Archwilio Archwilio Cymru 2022

Dywedwyd bod yr Awdurdod yn cael ei archwilio gan Archwilio Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Deddf Llywodraeth Leol 1999, a'r Cod Ymarfer Archwilio. Roedd y rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn nesaf, oedd yn cynnwys archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ac archwiliad o’r perfformiad, wedi’i hamlinellu yng Nghynllun Archwilio Archwilio Cymru 2022, oedd wedi’i ddosbarthu i'r Aelodau cyn y cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd Jason Blewitt, y Rheolwr Archwilio, a gyflwynodd yr adroddiad, gan egluro nad oedd y rhaglen ar gyfer yr archwiliad o’r perfformiad wedi'i chadarnhau eto ac y byddai diweddariadau yn cael eu darparu unwaith y byddent ar gael. Ychwanegodd gan fod y ffioedd wedi aros ar yr un lefel am y pum mlynedd diwethaf, y bu'n rhaid cynyddu'r rhain 3.7% yn y flwyddyn sydd i ddod oherwydd pwysau costau cynyddol.

Roedd yr Aelodau yn gefnogol i'r cynllun.

**Nodwyd.**

6. **Ymholiadau Archwilio i'r rhai sy'n gyfrifol am Lywodraethu a Rheoli**
Dywedwyd y gofynnwyd i'r Awdurdod gyflwyno dogfennau oedd yn dangos bod yr Awdurdod wedi ystyried a deall nifer o feysydd llywodraethu oedd yn effeithio ar archwiliad Archwilio Cymru o'r datganiadau ariannol. Roedd yr ystyriaethau hyn yn berthnasol i reolwyr Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac i'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' (y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol). Fel y gofynnwyd y llynedd, roedd yr ymholiadau hyn wedi'u hatodi i'r adroddiad er mwyn i bob Aelod o'r Pwyllgor eu hystyried.

Roedd ymateb drafft wedi'i ddarparu ac roedd yr Aelodau'n hapus bod yr ymateb hwn yn cael ei gyflwyno i Archwilio Cymru.

**NODWYD.**

7. **Cofrestr Risg**
Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y gofrestr risg ddiweddaraf, oedd wedi'i hadolygu gan y Tîm Arweinyddiaeth. Amlygwyd y prif newidiadau o'r adroddiad blaenorol mewn tabl cryno ac roedd y newidiadau hyn yn ymwneud â chyflawni'r Siarter Uwch ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau; ymgynghori ar y bwriad i ailstrwythuro’r sefydliad i fynd i'r afael â'r risg o ddiffyg capasiti/sgiliau staff; cyfarfodydd y grŵp eiddo i fonitro’r cynnydd ar brosiectau hanfodol; risgiau sy'n ymwneud â chydraddoldeb; a chostau cyfleustodau. Dim ond yr olaf o'r risgiau hyn oedd wedi cynyddu yn y Gofrestr, gyda'r duedd ar i lawr neu'n statig yn yr achosion eraill. Hefyd amlygwyd y chwe risg uchaf i'r Awdurdod.

Dywedodd yr Aelodau bod y ddau dabl yn ddefnyddiol iddynt. Fodd bynnag gofynnwyd am i ystyriaeth gael ei rhoi i ychwanegu camau gweithredu penodol i ddisodli'r mesurau lliniaru a restrwyd ar gyfer effaith hirdymor Risg 9 yn sgîl newid yn yr hinsawdd a Risg 37 y Clefyd Coed Ynn. Hefyd a oedd y risg o fethiant mawr yn y system TG neu ymosodiad firws wedi cynyddu yn ystod y misoedd diwethaf. Atebodd y Prif

Weithredwr y byddai mwy o wybodaeth ar gael yn y misoedd nesaf fyddai'n helpu'r Awdurdod i ddatblygu ei ymateb i newid yn yr hinsawdd, ac y byddai'r Gofrestr wedyn yn cael ei diweddaru. Byddai angen i'r system gynllunio barhau i fynd i'r afael â pherygl llifogydd, ac roedd gan yr Awdurdod bolisïau cynllunio cadarn yn hyn o beth.

Awgrymwyd hefyd y risg o fethu â recriwtio Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd newydd y Parc fel risg newydd, ac atebodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod, fel sefydliad bach, yn agored i staff allweddol yn gadael. Fodd bynnag byddai'r dull o fynd ati i lenwi'r swydd hon yn cael ei gytuno mewn Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Adnoddau Dynol yr wythnos ganlynol.

Yn olaf, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cefn Gwlad, Cymunedol ac Ymwelwyr, yn dilyn ymchwiliad ar gais yr Aelodau, y gwelwyd bod y pelenni ar gyfer y boeler biomas yn dod o Rwsia, a bellach bod cyflenwad arall wedi'i ganfod.

**NODWYD.**

**8. Adroddiad ar y Perfformiad yn y Cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2022**

Roedd yr adroddiad yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2021/22. Roedd hyn yn dilyn dull gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sydd â saith o amcanion llesiant, ac adran ychwanegol sy'n cyflwyno gwybodaeth gyffredinol am lywodraethu. Roedd y gweithgareddau oedd yn ymateb i'r adferiad ar ôl Covid 19 wedi'u prif-ffrydio yn y ffrydiau gwaith o dan pob un o'r Amcanion Llesiant.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad am y flwyddyn ariannol gyfan - Ebrill i Fawrth 2021/22 ac yn cynnwys data Ch4 (Ionawr - Mawrth) ar gyfer y mwyafrif o'r setiau data. Byddai'r data yn cael ei adolygu cyn ei gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ar Gyflawni Amcanion Llesiant. Amlygwyd nifer o brosiectau oedd wedi'u cwblhau, yn ogystal â meysydd lle'r oedd y sgôr RAG yn goch. Cafwyd diweddariad llafar ar nifer y staff oedd wedi cwblhau cwrs Cymraeg gwaith ar-lein yn ystod y flwyddyn, gyda'r ffigwr yn parhau yn 3 ar gyfer chwarter 4.

Gofynnodd un Aelod am ragor o fanylion, a'r camau a gymerwyd mewn ymateb i ddigwyddiad RIDDOR (Adrodd ar Reoliadau Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013) yn Ch4, a chytunodd y Rheolwr AD i ddosbarthu hwn i'r Pwyllgor.

**NODWYD**

**9. Adroddiad Archwilio Mewnol 2021/22**

Croesawodd y Cadeirydd Jonathan Maddock o TIAA, Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod a gyflwynodd nifer o adroddiadau. Roedd y cyntaf o'r adroddiadau hyn yn adolygiad dilynol oedd yn pennu'r camau rheoli oedd wedi'u cymryd mewn ymateb i bob un o'r argymhellion oedd wedi deillio o'r adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn 2020/21. Daeth yr adroddiad hwn i'r casgliad bod yr Awdurdod wedi cymryd camau rhesymol ar 11 o'r argymhellion, ond bod 10 yn parhau heb eu rhoi ar waith, a rhoddwyd manylion am y camau oedd wedi'u cymryd hyd yn hyn. Roedd dau argymhelliad arall wedi'u disodli gan yr adroddiad rheoli risg oedd hefyd wedi'i gynnwys gyda'r papurau.

Roedd yr Aelodau o'r farn y byddai diweddariad gan y swyddogion ar yr argymhellion yn ddefnyddiol, gan egluro pam fod rhai ohonynt yn dal heb eu cyflawni. Dywedodd y Prif Weithredwr bod amrywiaeth o resymau pam nad oedd argymhellion wedi'u gweithredu, a chytunodd y gellid cyflwyno adroddiad pellach yn y cyfarfod nesaf.

Roedd yr ail adroddiad yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, oedd wedi ystyried y trefniadau a roddwyd ar waith gan yr Awdurdod i ddangos ei fod yn gweithredu'n deg ac yn gyfartal, ac roedd yr adroddiad yn rhoi sicrwydd cyffredinol rhesymol yn hyn o beth.

Nodwyd y bu oedi cyn cyflwyno adroddiad ar yr adolygiad o reoli risg a rheolaethau lliniaru gan fod hyn wedi ei gyflwyno i Weithdy i'r Aelodau ar risg fis Tachwedd 2021, ac eto rhoddwyd sicrwydd rhesymol. Roedd yr Aelodau yn bryderus bod sylwadau'r rheolwyr wedi gwrthod argymhellion yr Archwilydd Mewnol mewn dau achos, ac yn awgrymu y gellid dyrannu camau gweithredu, yn hytrach na risgiau, i unigolion fel ffordd ymlaen. Atebodd y Prif Weithredwr bod Archwilio Mewnol wedi gwneud y gwaith hwn ar gais y swyddogion ac y byddai rhagor o waith yn cael ei wneud ar ddulliau'r Awdurdod o ymdrin â risg, gan ystyried yr argymhellion, er mwyn sicrhau bod y Gofrestr Risg yn arf defnyddiol ar gyfer y rheolwyr a'r Aelodau. Byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor maes o law.

Roedd y pedwerydd adroddiad yn ymwneud ag adolygiad o'r Gwasanaethau Cydnerth a Chynaliadwy, ac roedd hwn yn rhoi sicrwydd rhesymol. Cytunodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod yn wynebu rhai problemau capasiti, fodd bynnag roedd y rhain yn derbyn sylw.

Hefyd cyflwynwyd y Sicrwydd Rheoliadau Mewnol Cryno (SICA) oedd yn rhoi diweddariad ar y materion oedd yn dod i'r amlwg o ran Llywodraethu, Risg a Rheolaeth Fewnol a'r cynnydd yng ngwaith TIAA ar gyfer yr Awdurdod yn erbyn y Cynllun Archwilio. Dywedodd un Aelod bod y

nodiadau briffio cleientiaid yn ddiddorol, oedd yn cynnwys rhybuddion yn erbyn twyll a materion diogelwch eraill, ac y dylid ystyried rhannu'r nodiadau hyn yn ehangach gyda'r Aelodau. Awgrymodd Mr Maddock bod rhai Awdurdodau yn cynnwys y rhain ar eu portholion Aelodau.

Yr adroddiad terfynol oedd Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol oedd yn cynnwys eu barn archwilio. Roedd hwn yn nodi bod TIAA, o ran y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, yn fodlon bod gan yr Awdurdod brosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu rhesymol ac effeithiol yn eu lle.

Mynegodd yr Aelodau eu diolch i TIAA am y gwaith yr oeddent wedi'i wneud.

**NODWYD.**

**10. Perfformiad y Gyllideb ar gyfer y Deuddeg Mis yn diweddu Mawrth 2022**

Eglurodd y Rheolwr Cyllid bod ei dîm ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer yr archwiliad oedd fod dechrau ar 20 Mehefin, a'r gobaith oedd y byddai'r cyfrifon yn cael eu cyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod oedd i'w gynnal ar 27 Gorffennaf 2022. Roedd yn gallu rhoi crynodeb o'r incwm am y flwyddyn, oedd yn dangos amrywiadau cadarnhaol yn erbyn y gyllideb ar draws derbyniadau a nwyddau masnach ar safleoedd a Chanolfannau Croeso yr Awdurdod yn ogystal â'r meysydd parcio. Dywedodd bod cyllidebau ar gyfer 2021/22 wedi'u pennu'n geidwadol oherwydd yr ansicrwydd am effaith y pandemig, fodd bynnag byddai'r ffigurau am y flwyddyn i ddod yn dychwelyd i lefelau mwy arferol ac roedd yr amrywiadau eithriadol yn annhebygol o ddigwydd eto.

Roedd y Prif Weithredwr yn dymuno llongyfarch yr holl staff ar y canlyniadau a gyflawnwyd, gan nodi eu bod wedi gwneud gwaith aruthrol yn ymdrin â niferoedd sylweddol o ymwelwyr. Roedd yr Awdurdod yn y sefyllfa ffodus o allu ychwanegu at ei gronfeydd wrth gefn, a byddai rhai o'r rhain yn cael eu defnyddio i hwyluso'r broses bresennol o ailstrwythuro. Fodd bynnag, roedd yr Awdurdod yn wynebu cyllideb wastad oddi wrth Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ac y byddai hyn yn her yn y blynyddoedd i ddod.

Ategodd yr Aelodau ddiolch y Prif Weithredwr i'r staff.

**Nodwyd.**

**11. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus**

**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion yn peri pryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.

**12. Diolch**

Gan mai hwn fyddai cyfarfod olaf y Pwyllgor i rai Aelodau, yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol, diolchwyd yn fawr iddynt am eu cyfraniadau.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2022 heb eu diwygio. |